

Arolygiad Practis Cyffredinol (Lle rhoddir rhybudd)

Canolfan Iechyd y Brifysgol;
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg

Dyddiad Arolygiad: 14 Chwefror
2017

Dyddiad Cyhoeddi: 15 Mai 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyd-destun.....	3
2.	Crynodeb	4
3.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd profiad y claf	5
	Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth	17
	Camau Nesaf.....	20
4.	Methodoleg	21
	Atodiad A.....	23
	Atodiad B.....	26

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

Mae AGIC yn canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cynhaliodd AGIC adolygiad o Ganolfan Iechyd y Brifysgol yn Neuadd Penmaen, Parc Singleton, Abertawe, SA2 8PG ar 14 Chwefror 2017. Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arolygydd arweiniol), Meddyg Teulu a rheolwr practis fel arolygwyr cymheiriaid a chynrychiolwyr o Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC).

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd Canolfan Iechyd y Brifysgol yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015). Caiff arolygiadau o Ymarfer Meddygol Cyffredinol (Meddygon teulu) eu cyhoeddi ac ystyrir ac adolygir y meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad gyda chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr i sicrhau fod barn cleifion wrth wraidd ein dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau mae'r gwasanaethau yn cyflenwi gofal diogel, effeithiol a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar y person.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'n arwain at ddarparu gofal effeithiol a diogel. Rydym hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad yn erbyn y safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir mwy o fanylion am ein methodoleg yn adran 6 o'r adroddiad hwn.

1. Cyd-destun

Ar hyn o bryd mae Canolfan Iechyd y Brifysgol yn darparu gwasanaethau i oddeutu 10123 o gleifion o fewn radiws o ddwy filltir i gampws Prifysgol Cymru, Abertawe. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau Meddyg Teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys dau Feddyg Teulu, dau nyrs, rheolwr y practis a thîm o staff gweinyddu a staff derbynfa. Mae nyrs gyswllt iechyd meddwl, cynghorwyr a fferyllwyr hefyd yn gysylltiedig â'r practis (ond nid ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y practis).

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys:

- Amrywiaeth lawn o wasanaethau meddygol cyffredinol (ac eithrio cadw golwg ar iechyd plant a brechlynnau plentyndod)
- Gwasanaeth cwnsela
- Clinig profion ceg y groth
- Clinig imiwneiddiad
- Clinig sgrinio iechyd rhywiol
- Cyngor atal cenhedlu
- Imiwneiddiadau teithio.

2. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Canolfan Iechyd y Brifysgol yn rhoi gofal diogel ac effeithiol i gleifion.

Canfuwyd bod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd y cleifion wrth y CIC eu bod yn hapus â'r gwasanaeth a ddarparwyd
- Gwelsom fod yr aelodau staff yn gwrtais gyda'r cleifion
- Roedd trefniadau da ar waith er mwyn hyrwyddo ac annog myfyrwyr blwyddyn gyntaf y brifysgol i gael brechiad Men ACWY¹
- Mae rheolwr y practis wedi datblygu canllawiau i'r staff gyda'r bwriad o sicrhau bod cofnodion cywir a chyflawn yn cael eu cadw
- Gwelsom gofnodion o safon dda yn cael eu cadw gan Feddygon Teulu a nyrsys

Argymhellwn y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Cynnal arolygon cleifion rheolaidd
- Adolygu gweithdrefn gwynion y practis fel ei bod yn cydymffurfio'n llwyr â *Gweithio i Wella*, y trefniadau presennol ar gyfer trin pryderon (cwynion) ynglŷn â gofal a thriniaeth y GIG yng Nghymru.
- Datblygu a gweithredu polisi ysgrifenedig ar gyfer crynhoi cofnodion cleifion
- Gwneud trefniadau er mwyn cynnal arfarniadau staff.

¹ Rhoddir brechlyn Men ACWY drwy un frechiad i fôn braich ac mae'n amddiffyn yn erbyn pedwar math o lid yr ymenydd a septisemia. Mae pobl yn eu harddegau a myfyrwyr prifysgolion mewn perygl uchel o haint am fod llawer ohonynt yn cymysgu'n agos â llawer o bobl newydd, a gallai rhai ohonynt fod yn cario bacteria maningococal heb yn wybod iddynt.

3. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Cafwyd barn cleifion ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir gan Ganolfan Iechyd y Brifysgol gan aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned Lleol (CIC). Ar y cyfan, dywedodd cleifion wrth CIC eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod yr aelodau staff yn trin cleifion â pharch a bod trefniadau ar waith i sicrhau preifatrwydd y cleifion a bod eu hurddas yn cael ei barchu. Mae'r practis yn gwneud ymdrechion i ateb anghenion cyfathrebu'r cleifion. Roedd gwybodaeth ar gael i ofalwyr a dylai'r practis ddatblygu hun ymhellach fel ei fod yn berthnasol i ofalwyr ifanc hefyd.

Roedd gan y practis fodd i gleifion ddarparu adborth. Canfuwyd bod angen diwygio'r weithdrefn ar gyfer pryderon ysgrifenedig (cwynion) fel ei bod yn cydymffurfio'n llwyr â Gweithio i Wella.

Roedd dau aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg (CIC)² yn bresennol yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad. Eu swyddogaeth oedd gofyn barn cleifion ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir gan Ganolfan Iechyd y Brifysgol drwy rannu holiaduron a drwy sgysiau wyneb yn wyneb gyda'r cleifion a/neu eu gofalwyr.

Yn gyffredinol, roedd y cleifion yn gadarnhaol ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn gan y practis. Mae'r CIC wedi paratoi adroddiad sy'n rhoi crynodeb o'r wybodaeth a gasglwyd. Ceir hyd i'r adroddiad yn [Atodiad B](#).

² Mae Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe Bro Morgannwg yn sefydliad statudol ac yn monitro ansawdd gwasanaethau'r GIG a ddarperir yn ardal Abertawe Bro Morgannwg.
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/902/home/>

Cadw'n Iach

Safon 1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd

Mae pobl wedi'u grymuso ac yn cael eu helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain ac mae gofalwyr am unigolion sy'n methu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael cymorth. Mae gwasanaethau iechyd yn gweithio mewn partneriaeth gydag eraill i ddiogelu a gwella iechyd a lles pobl a lleihau anghydraddoldebau iechyd.

Mae gwybodaeth ar gael i helpu cleifion allu bod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u lles eu hunain. Roedd gwybodaeth i ofalwyr ar gael yn rhwydd. Dylai'r practis ystyried datblygu'r wybodaeth hon fel ei bod yn berthnasol hefyd i ofalwyr ifanc.

Roedd amrywiaeth o ddeunydd hybu iechyd ar gael ym mannau aros y practis, yn ogystal â'r wybodaeth ar grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol. Roedd y wybodaeth hybu iechyd a oedd ar gael yn y practis yn berthnasol i boblogaeth ei gleifion. Dywedodd y staff uwch wrthym fod y practis yn gweithio'n agos â gwasanaethau myfyrwyr y brifysgol a bod system ar waith er mwyn i Feddygon Teulu allu atgyfeirio cleifion (sydd hefyd yn fyfyrwyr) i ddefnyddio campfa'r brifysgol gyda'r bwriad o hybu ffordd iach o fyw.

Cadarnhaodd y staff uwch fod yr aelodau staff wedi dilyn hyfforddiant ar anghenion gofalwyr. Roedd gwybodaeth i ofalwyr yn cael ei arddangos yn amlwg yn yr ystafell aros. Roedd y wybodaeth wedi ei hanelu at ofalwyr hŷn ac yn cynnwys manylion am grŵp cymorth lleol y gallai gofalwyr gysylltu ag ef i gael cyngor a chymorth ynglŷn â'u cyfrifoldebau dyddiol. Dylai'r practis, felly, ddatblygu'r wybodaeth sydd ar gael ymhellach fel ei bod hefyd yn berthnasol i ofalwyr ifanc.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddatblygu'r wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr fel ei bod yn berthnasol hefyd i bobl ifanc sy'n ofalwyr.

Dywedodd y staff uwch nad oedd gofalwyr ar ei gofrestr ar adeg ein harolygiad. Dywedwyd wrthym y byddai holiadur diwygiedig i gleifion yn cael ei gyflwyno ac roedd hwn yn gofyn a oedd y claf yn ofalwr. Byddai hyn yn gymorth i staff y practis adnabod gofalwyr gyda'r bwriad o roi cymorth a chyngor iddynt ar eu cyfrifoldebau gofalu dyddiol.

Gofal gydag urddas

Safon 4.1 Gofal gydag urddas

Mae profiad pobl o ofal iechyd yn un lle mae pawb yn cael ei drin ag urddas, parch, tosturi a charedigrwydd ac sy'n cydnabod ac yn diwallu anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol unigolion

Roedd y bobl a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin â charedigrwydd a pharch ac roedd trefniadau ar waith i amddiffyn preifatrwydd cleifion.

Gwelwyd yr aelodau staff yn cyfarch cleifion yn gyfeillgar a'u trin ag urddas a pharch.

Roedd y dderbynfa wedi ei lleoli yn y brif ystafell aros ac roedd sgrin wydr yn rhannu'r ystafell. Roedd hyn yn rhoi rhywfaint o breifatrwydd pan fyddai angen i staff y dderbynfa ateb y ffôn. Gwelsom hefyd bod yr aelodau staff yn ystyriol o'r angen i amddiffyn gwybodaeth bersonol cleifion. Dywedodd yr aelodau staff wrthym hefyd y gellid defnyddio ystafell ar wahân pe byddai cleifion eisiau siarad gydag aelodau staff y dderbynfa/practis yn breifat.

Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth ar gau bob amser pan oedd aelodau staff y practis yn gweld cleifion. Roedd hyn yn golygu bod yr aelodau staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd llenni preifatrwydd yn yr ystafelloedd triniaeth hefyd er mwyn rhoi preifatrwydd ychwanegol i gleifion yn ystod archwiliadau.

Roedd gan y practis bolisi ysgrifenedig ar y defnydd o hebryngwyr. Nod hyn oedd diogelu cleifion ac aelodau staff clinigol pan oedd cleifion yn cael archwiliadau personol. Cadarnhaodd yr aelodau staff uwch bod aelodau staff y practis wedi derbyn hyfforddiant ar swyddogaeth a chyfrifoldeb hebryngwyr. Roedd gwybodaeth yn rhoi gwybod i gleifion bod hebryngwyr ar gael wedi ei harddangos yn glir ac ar gael yn yr ystafell aros.

Safon 4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion

Rhaid i bobl gael gwybodaeth lawn am eu gofal a honno'n hygyrch, yn ddealladwy ac mewn iaith a dull sy'n ystyriol o'u hanghenion i'w galluogi a'u helpu i wneud penderfyniad gwybodus am eu gofal fel partner cyfartal.

Safon 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol

Wrth gyfathrebu gyda phobl mae gwasanaethau iechyd yn diwallu anghenion unigolion o ran iaith a chyfathrebu mewn modd rhagweithiol.

Roedd y practis yn rhoi ystyriaeth i anghenion cyfathrebu'r cleifion.

Roedd gwybodaeth am wasanaeth y practis ar gael mewn taflen wybodaeth ac ar wefan y practis. Roedd copïau o'r daflen wybodaeth ar gael yn rhwydd yn Gymraeg ac yn Saesneg, sy'n golygu bod modd i siaradwyr Cymraeg sy'n byw yn yr ardal ddewis gael y wybodaeth yn eu dewis iaith os byddant yn mynegi eu bod yn dymuno hynny. Roedd un o'r nyrsys yn siaradwr Cymraeg. Roedd hyn yn caniatáu i'r practis gynnig y cyfle i'r cleifion gael cyfathrebu yn Gymraeg pe byddent yn mynegi dymuniad i wneud hynny.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu. Roedd modd i aelodau staff y practis ei ddefnyddio er mwyn eu helpu i gyfathrebu â chleifion nad oedent yn siarad Saesneg fel iaith gyntaf. Roedd gwybodaeth ysgrifenedig wedi ei harddangos wrth ddesg y dderbynfa er mwyn helpu'r cleifion allu dangos eu dewis o iaith i'r aelodau staff. Roedd y practis hefyd wedi cyfieithu rhywfaint o'r wybodaeth allweddol gysylltiedig â brechiadau er mwyn cynorthwyo cleifion yn ystod y broses o gofrestru. Roedd dolen glyw ar gael yn y dderbynfa er mwyn helpu'r cleifion hynny sy'n defnyddio teclyn clyw i glywed aelodau staff yn fwy clir.

Roedd gwybodaeth i gleifion a'u gofalwyr wedi ei harddangos ar hysbysfyrdau yn ystafell aros y practis. Roeddent yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r gwasanaethau a gynnigir gan y practis ac argaeledd grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg yn rheolaidd. Roedd y deunydd hybu iechyd wedi ei anelu at gleifion ieuengach yn gyffredinol, a oedd yn ganran helaeth o boblogaeth cleifion y practis.

Roedd gwefan y practis yn rhoi gwybodaeth i gleifion ynglŷn â'r gwasanaethau a gynnigir a dolenni i adnoddau eraill. Gwelsom, fodd bynnag, nad oedd rhai o'r dolenni'n gweithio a dylid trefnu i'w diweddarau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis adolygu gwefan y practis er mwyn diweddarau dolenni nad ydynt yn gweithio.

Roedd gan y practis systemau ar waith er mwyn rheoli gohebiaeth/gwybodaeth allanol a chyfathrebu mewnol rhwng aelodau o dîm y practis. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth glinigol a dderbynnir yn y practis yn cael ei hadolygu gan Feddyg Teulu a bod camau dilynol yn cael eu cymryd fel y bo'n briodol. Roedd rheolwr y practis wedi datblygu canllawiau i'r aelodau staff gweinyddu eu defnyddio. Bwriad hyn oedd hybu cadw cofnodion cywir a chyflawn. Roeddem yn gweld hwn yn arfer nodedig.

Gofal Amserol

Standard 5.1 Mynediad Amserol

Mae pob agwedd ar ofal yn cael ei darparu mewn ffordd amserol gan sicrhau bod pobl yn cael eu trin ac yn cael gofal yn y ffordd gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir.

Roedd y practis yn gwneud ymdrech i roi gofal amserol i gleifion drwy gyfuniad o apwyntiadau agored, apwyntiadau wedi eu trefnu ac apwyntiadau brys.

Roedd y practis yn gweithredu system apwyntiadau agored yn ystod y boreau. Roedd hyn yn golygu bod modd i gleifion ddod i'r feddygfa ac aros i gael eu gweld gan feddyg. Roedd natur yr apwyntiadau hyn yn golygu bod posibilrwydd y byddai'n rhaid i'r cleifion aros yn hir i gael eu gweld gan feddyg neu nyrs. Ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelsom aelodau staff y dderbynfa'n rhoi gwybod i gleifion wrth iddynt gyrraedd y byddai'n rhaid aros yn hir i gael eu gweld. Mae'n bosibl yr hoffai'r practis edrych ar ffyrdd eraill o roi gwybod i'r cleifion am amseroedd aros yn barhaus yn ystod y cyfnod y mae'r feddygfa ar agor.

Roedd apwyntiadau wedi'u trefnu ar gael yn ystod y prynhawniau, yn ogystal â meddygfa frys yn hwyrach yn y dydd. Roedd y practis hefyd yn cynnig ymweliadau cartref ac roedd y trefniadau ar gyfer hynny'n cael eu disgrifio yn nhaflen wybodaeth y practis.

Ar y cyfan, roedd y sylwadau a wnaed gan y cleifion i aelodau CIC yn gadarnhaol ynglŷn â'u profiadau o'r system apwyntiadau. Dywedodd nifer fechan o gleifion wrth CIC eu bod wedi ei chael yn anodd trefnu apwyntiad. Cadarnhaodd y rhan fwyaf o'r cleifion, fodd bynnag, bod modd iddynt weld meddyg o fewn 24 awr.

Roedd clinigau a redwyd gan nyrsys y practis ar gael. Roedd hyn yn golygu nad oedd yn rhaid i gleifion aros i gael gweld meddyg, pan oedd hynny'n briodol.

Gwelsom fod yr atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol eraill yn cael eu rheoli'n briodol.

Gofal unigol

Safon 6.2 Hawliau Pobl

Mae gwasanaethau iechyd yn sefydlu cydraddoldeb a hawliau dynol ar draws swyddogaethau a threfniadau cyflenwi gwasanaethau iechyd yn unol â'r gofynion statudol gan gydnabod amrywiaeth y boblogaeth a hawliau unigolion dan ddeddfwriaeth ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Roedd adeilad y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn cael trafferth yn symud.

Roedd mynediad gwastad i brif fynedfa'r adeilad ac roedd y man aros, y dderbynfa a'r ystafelloedd ymgynghori i gyd ar y llawr gwaelod. Roedd hyn yn galluogi cleifion oedd yn cael trafferth symud (a'r cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn) i ddod i'r adeilad yn ddiogel. Er bod drws a gynorthwyir gan bŵer yn y brif fynedfa, gallai drws awtomatig helpu i wella mynediad i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

Eglurodd yr aelodau staff y gallai nodiadau'r cleifion gynnwys fflag i ddynodi cleifion a oedd ag anghenion arbennig e.e. anghenion symudedd neu gyfathrebu arbennig.

Safon 6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth

Rhaid i bobl sy'n cael gofal, a'u teuluoedd, gael eu grymuso i ddisgrifio eu profiadau wrth y rhai a ddarparodd eu gofal fel bod dealltwriaeth eglur o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio'n dda, a rhaid iddynt gael ymateb agored a gonest. Dylai gwasanaethau iechyd gael eu trefnu gan anghenion y bobl a wasanaethir a mynd i'r afael â'r anghenion hynny a dangos eu bod yn gweithredu ar adborth ac yn dysgu ohono.

Roedd gan y practis fodd i gleifion ddarparu adborth am eu profiadau. Roedd angen adolygu gweithdrefn gwynion (pryderon) y practis fel ei fod yn cydymffurfio â threfniadau *Gweithio i Wella*.

Gallai'r cleifion gyflwyno adborth mewn blwch awgrymiadau, a oedd wedi ei leoli mewn man amlwg yn yr ystafell aros. Gallai'r cleifion hefyd gyflwyno adborth drwy wefan y practis. Dywedwyd wrthym nad oedd arolygon boddhad cleifion wedi eu cynnal yn ddiweddar. Dylai'r practis geisio gwneud hyn fel rhan o'i weithgaredd gwella ansawdd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis gynnal arolwg boddhad cleifion a threfnu i ailadrodd arolygon yn rheolaidd fel rhan o weithgaredd gwella ansawdd y practis.

Roedd gan y practis weithdrefn ar waith er mwyn i gleifion a'u gofalwyr gal mynegi pryderon (cwynion). Roedd angen diweddarau'r weithdrefn hon fel ei bod yn adlewyrchiad cywir o *Weithio i Wella*, gan ei bod yn nodi'n anghywir bod modd i gleifion ofyn am adolygiad gan Ysgrifenyddiaeth adolygiadau Annibynnol. Mae hyn wedi dyddio ac nid yw'n rhan o'r trefniadau presennol sy'n gysylltiedig â thrin cwynion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid adolygu gweithdrefn gwynion y practis fel ei bod yn cydymffurfio â Gweithio i Wella.

Roedd gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â'r ffordd y gallai cleifion fynegi pryderon wedi ei harddangos yn yr ystafell aros ac yn cael ei chynnwys yn llyfryn gwybodaeth y practis ac ar y wefan.

Gwelsom fod cofnodion wedi eu cynnal o gwynion a dderbyniwyd gan y practis. Roedd y cofnodion yn dangos bod y practis wedi ymdrin â'r cwynion mewn modd amserol.

Cyflwyno gofal diogel ac effeithiol

Yn gyffredinol, gwelsom fod gan y practis drefniadau er mwyn sicrhau bod cleifion yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom y gellid gwella'r system ar gyfer adnewyddu meddyginiaethau a oedd wedi eu defnyddio a rhoddwyd sylw i hyn gan aelodau staff y practis cyn diwedd yr arolygiad. Roedd angen i'r practis hefyd ddatblygu polisi y cytunir arno er mwyn crynhoi cofnodion cleifion a dylai wneud trefniadau er mwyn archwilio cofnodion cleifion yn rheolaidd fel rhan o'i weithgaredd sicrwydd ansawdd.

Gofal diogel

Safon 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Mae iechyd, diogelwch a lles pobl yn cael eu hybu a'u diogelu'n weithredol. Mae risgiau'n cael eu hadnabod, eu monitro a lle y bo'n bosibl, yn cael eu lleihau neu eu hatal.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu diogelwch cleifion ac aelodau staff sy'n gweithio yn y practis.

Cawsom daith o adeilad y practis ac roedd bob rhan a ddefnyddir gan y staff a'r cleifion yn ymddangos yn lân, yn daclus a heb lanastr, a oedd yn gostwng y perygl o faglu a chwympo. Roedd yn ymddangos bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw i lefel foddhaol, y tu mewn a'r tu allan. Roedd camau diogelwch ar waith er mwyn atal mynediad heb awdurdod i fannau o'r adeilad nad oedd cleifion i fod i'w defnyddio.

Cadarnhaodd y staff uwch bod polisïau'r practis ar gael yn electronig a bod modd i bob aelod o staff gael mynediad iddynt drwy yriant cyfrifiadur a rennir o'u cyfrifiaduron yn y practis.

Dywedodd y staff uwch bod trefniadau wedi eu gwneud drwy grŵp clwstwr y Meddygon Teulu³ ar gyfer grŵp allanol er mwyn darparu cyngor ar faterion

³ 'Clwstwr' practis Meddygon Teulu yw grŵp o Feddygon Teulu a meddygfeydd a bennir yn lleol gan Fwrdd Iechyd Lleol GIG Cymru. Mae gan y Meddygon Teulu yn y clwstwr swyddogaeth allweddol yn y gwaith o gefnogi gwaith parhaus Rhwydwaith (iechyd) Lleol er budd cleifion.

iechyd a diogelwch. Byddai'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor arbenigol i bob un o'r meddygfeydd o fewn y grŵp clwstwr.

Gwelsom fod gan y practis arferion da ar waith er mwyn hyrwyddo ac annog myfyrwyr blwyddyn gyntaf y brifysgol i gael brechlyn Men ACWY er mwyn amddiffyn yn erbyn llid yr ymennydd. Nod hyn yw amddiffyn unigolion a'r gymuned ehangach rhag afiechyd meningococol.

Safon 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi

Mae angen i gamau i atal heintiau fod yn fusnes i bawb a rhaid iddynt fod yn rhan o arfer pob dydd ym maes gofal iechyd ac yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael fel bod pobl yn cael eu diogelu rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Roedd mesurau ar waith i ddiogelu pobl rhag heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd y gellir eu hatal.

Roedd y mannau lle rhoddir triniaethau clinigol a welwyd yn amlwg yn lân. Darparwyd cyfleusterau ymolchi a sychu dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori, yr ystafelloedd triniaeth a'r cyfleusterau tai bach. Gwelsom fod y gwastraff, gan gynnwys nodwyddau meddygol wedi eu didoli i wahanol fagiâu/cynwysyddion er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio'n ddiogel cyn cael ei waredu.

Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau ar reoli haint ar gael i'r aelodau staff. Gwelsom fod offer amddiffynnol personol megis menig a ffedogau untro ar gael i'r aelodau staff er mwyn lleihau'r perygl o draws-heintio.

Cadarnhaodd aelodau o'r staff nyrsio bod yr holl offerynnau a ddefnyddiwyd yn ystod triniaethau wedi eu prynu fel pecynnau di-haint, defnydd sengl. Roedd hyn yn osgoi'r angen i ddefnyddio offer sterileiddio/dadheintio ac yn helpu i leihau'r perygl o draws-heintio.

Gwelsom fod cofrestr ganolog wedi ei chynnal, a oedd yn dangos fod yr aelodau staff wedi cael eu brechlynnau Hepatitis B.

Safon 2.6 Rheoli meddyginiaethau

Mae pobl yn cael meddyginiaeth am y rheswm cywir, yn cael y feddyginiaeth gywir, y dos cywir ohoni a hynny ar yr amser cywir.

Yn gyffredinol, canfuwyd bod systemau ar waith er mwyn rheoli meddyginiaethau'n ddiogel.

Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer rhagnodi ac adolygu meddyginiaethau cleifion yn ddiogel. Roedd y practis yn defnyddio fformiwlari y cytunwyd arni a dywedwyd ei fod yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd er mwyn ystyried canllawiau lleol a chenedlaethol. Roedd y practis yn cael defnyddio gwasanaeth cynghorydd rhagnodi a allai roi cyngor a chymorth ar faterion cysylltiedig â rhagnodi meddyginiaethau.

Gwelsom fod archwiliadau rhagnodi meddyginiaethau wedi eu cynnal. Roedd yr archwiliadau hyn yn helpu i ganfod a oedd meddyginiaethau wedi eu rhagnodi'n briodol ac yn dangos lle dylid gwneud gwelliannau, os oedd angen.

Roedd nifer o ffyrdd y gallai cleifion archebu presgripsiynau amlroddadwy ac roedd y ffyrdd yn cael eu disgrifio yn nhaflen wybodaeth y practis. Canfuwyd bod systemau da ar waith er mwyn monitro presgripsiynau amlroddadwy.

Roedd gan y practis feddyginiaeth ac offer er mwyn ymateb i argyfwng gyda chlaf (cwmp) yn y practis. Roedd hyn yn ymddangos yn gynhwysfawr a chadarnhaodd y staff uwch fod hyn yn cydymffurfio â chanllawiau a gyflwynwyd gan y Cyngor Dadebru (DU)⁴. Roedd systemau ar waith i wirio'r offer yn rheolaidd ac adnewyddu meddyginiaethau sydd wedi dod i ben.

Canfuwyd, fodd bynnag, bod angen gwella'r system i adnewyddu meddyginiaethau ym magiau brys y Meddygon Teulu. Roedd y system hon yn ddibynnol ar y meddyg yn gadael y blwch gwag yn yr ystafell driniaeth er mwyn dangos bod angen adnewyddu. Roedd potensial yn y sefyllfa hon i rywun gael gwared â'r blwch heb i'r feddyginiaeth newydd gael ei harchebu. Cytunodd aelodau staff y practis i ailedrych ar y trefniant hwn ac roeddent wedi rhoi system wahanol ar waith cyn diwedd yr arolygiad.

Safon 2.7 Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg Mae'r gwasanaethau iechyd yn hybu ac yn diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu'n wynebu risg ar unrhyw adeg.

Cadarnhaodd yr aelodau staff uwch bod yr aelodau staff yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu. Nid oedd y practis yn darparu gwasanaethau i blant.

Os byddant yn pryderu ynglŷn â lles claf, cadarnhaodd yr aelodau staff y siaradwyd â hwy y byddant yn rhoi gwybod i aelod o staff uwch y practis.

⁴ Cyngor Dadebru (DU), safonau ansawdd ar gyfer arferion a hyfforddiant cardio-pwlmonaidd - <https://www.resus.org.uk/quality-standards/introduction-and-overview/>

Roedd yr aelodau staff yn ymwybodol o Feddyg Teulu diogelu arweiniol y practis y gellir mynd ato i gael cyngor ynglŷn â materion diogelu.

Edrychwyd ar sampl o gofnodion hyfforddi a gweld bod yr aelodau staff wedi cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn oedolion agored i niwed.

Gofal effeithiol

Safon 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol *Dylai gofal, triniaeth a phrosesau penderfynu adlewyrchu arfer gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir i ddiwallu eu hanghenion unigol.*

Roedd gan y practis systemau ar waith i hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch cleifion a digwyddiadau sylweddol a dysgu o ganlyniad iddynt.

Gwelsom fod cofnodion manwl wedi eu gwneud ac eglurodd yr aelodau staff uwch fod unrhyw ddigwyddiadau'n cael eu trafod yng nghyfarfodydd y practis a bod unrhyw ddysg yn cael ei rhannu â thîm ehangach y practis.

Cadarnhaodd yr aelodau staff uwch fod gan y Meddygon Teulu fynediad i wefan *GP One* a'u bod yn ei defnyddio. Nod y wefan hon yw rhoi ystod o adnoddau cyfredol i'r Meddygon Teulu sy'n berthnasol i Bractis Cyffredinol yng Nghymru

Cadw cofnodion

Standard 3.5: Cadw cofnodion *Mae trefniadau da ar gyfer cadw cofnodion yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn cael gofal effeithiol a diogel. Rhaid i wasanaethau iechyd sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n unol â deddfwriaeth a chanllawiau ar safonau clinigol.*

Edrychwyd ar sampl o gofnodion electronig y cleifion. Roedd y sampl hon yn cynnwys nodiadau a wnaed gan Feddygon Teulu, Meddygon Teulu locwm a nyrsys. Gwelsom safon dda o gadw cofnodion. Roedd y practis angen gweithredu polisi ar grynhoi cofnodion cleifion.

O'r cofnodion a welwyd, roedd modd penderfynu ar ganlyniad yr ymgynghoriad rhwng y meddyg teulu neu'r nyrs a'r claf. Roedd hyn yn golygu bod modd i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n gweld cleifion allu gwybod beth oedd wedi digwydd mewn ymgynghoriadau blaenorol er

mwyn sicrhau bod yr achos yn cael ei dilyn yn ôl yr angen. Canfuwyd bod system Read coding⁵ yn cael ei defnyddio.

Eglurodd aelodau staff uwch nad oedd cofnodion meddygol yn cael eu crynhoi'n rheolaidd. Myfyrwyr prifysgol oedd cyfran helaeth o boblogaeth cleifion y practis ac eglurodd yr aelodau staff uwch bod swm y cleifion (myfyrwyr) sy'n cofrestru â'r practis bob blwyddyn yn ei gwneud yn amhosibl crynhoi nodiadau. Gallai peidio â chrynhai cofnodion cleifion arwain at fethu sicrhau bod gwybodaeth bwysig ar gael yn rhwydd i'r aelodau staff clinigol. Gallai hyn wedyn arwain at benderfyniadau nad ydynt yn hybu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd aelodau staff y practis wedi ystyried y risg gysylltiedig â pheidio â chrynhai cofnodion ac roeddent yn gofyn i bob claf newydd lenwi *Holiadur Meddygol Claf Newydd*. Gofynnwyd i gleifion ddatgelu unrhyw gyflyrau meddygol presennol, ac os byddai'r cyflyrau'n sylweddol, byddai'r nodiadau'n cael eu sicrhau a'u crynhoi gyda'r nod o gynorthwyo'r tîm clinigol i wneud penderfyniad ynglŷn â gofal cyfredol. Er inni gael gwybod bod y system hon ar waith, nid oedd hyn wedi ei gefnogi gan bolisi ysgrifenedig cyfredol y cytunwyd arno.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu a gweithredu polisi ysgrifenedig er mwyn crynhoi cofnodion cleifion. Dylid adolygu'r polisi hwn yn rheolaidd.

Disgrifiodd yr aelodau staff uwch bod cofnodion cleifion a gwblhawyd gan Feddygon Teulu locwm yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan un Uwch Feddyg Teulu. Dylid ehangu'r system archwilio i bob Meddyg Teulu sy'n gweithio yn y practis fel rhan o weithgaredd gwella ansawdd cyffredinol.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu system o archwilio cofnodion cleifion a gwblheir gan Feddygon Teulu'n rheolaidd fel rhan o'i weithgaredd gwella ansawdd.

⁵ *Read codes* yw set o godau clinigol a gaiff eu generadu gan gyfrifiadur ac a gynlluniwyd i'w defnyddio mewn Gofal Sylfaenol i gofnodi gofal dyddiol a roddir i glaf. Mae'r codau hefyd yn hwyluso gweithgaredd archwilio a pharatoi adroddiadau o fewn gofal sylfaenol.

Ansawdd y rheolaeth a'r arweinyddiaeth

Roedd strwythur rheoli ar waith gyda llwybrau atebolrwydd ac adrodd y cytunwyd arnynt. Disgrifiwyd a dangoswyd gwaith tîm da.

Gallai'r aelodau staff ddisgrifio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau unigol a dywedasant eu bod wedi cael cyfleoedd i ddilyn hyfforddiant er mwyn eu helpu i wneud eu gwaith. Roedd angen i'r practis wneud trefniadau er mwyn sicrhau bod aelodau staff yn derbyn arfarniad cyfredol o'u gwaith.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Safonau Iechyd a Gofal, Rhan 2 - Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd
Mae llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol sy'n gyson â maint a chymhlethdod y gwasanaeth iechyd yn hanfodol i gyflenwi gofal diogel, effeithiol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mewn modd cynaliadwy.

Roedd strwythur gyda llwybrau atebolrwydd a chyfathrebu y cytunwyd arnynt ar waith. Cyfrifoldeb rheolwr practis, a oedd yn gweithio'n agos â'r Uwch Feddyg Teulu, oedd rheoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod arweinyddiaeth effeithiol a gwaith tîm da yn cael ei ddisgrifio gan yr aelodau staff y siaradwyd â hwy.

Roedd gan y practis gynllun datblygu cyfredol. Roedd y cynllun yn nodi nodau ac amcanion, ynghyd â chamau ac amserlenni ar gyfer cwblhau. Roedd y practis wedi cwblhau Offeryn Hunanasesu Ymarfer Llywodraethu Clinigol (CGPSAT)⁶ fel rhan o'i drefniadau llywodraethu ac roedd yn gwneud hyn eto ar gyfer 2016/17. Disgrifiodd yr aelodau staff uwch enghreifftiau o weithgaredd ar chwilio fel rhan o'i weithgaredd sicrwydd ansawdd. Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu â phractisiau eraill yn y grŵp clwstwr lleol er mwyn canfod a chytuno ar feysydd lle dylid gwella'r gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr aelodau staff uwch bod y polisïau perthnasol ar gael a bod bob aelod o staff yn cael eu defnyddio. Cadarnhaodd yr aelodau staff bod cyfathrebu da o fewn y tîm. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd rheolaidd yn

⁶ Mae Offeryn Hunanasesu Ymarfer Llywodraethu Clinigol (CGPSAT) yn annog practisiau i bontio'r bwch rhwng deall a meddwl am eu systemau llywodraethu a chwblhau'r camau angenrheidiol i'w gwella

cael eu cynnal rhwng y Meddygon Teulu sy'n bartneriaid yn y practis. Fodd bynnag, dylai'r practis ystyried cynnal cyfarfodydd practis ehangach gyda'r nod o gryfhau systemau cyfathrebu presennol.

Fel y disgrifiwyd yn gynharach, dylai'r practis gynnal arolwg boddhad cleifion a gwneud trefniadau i ailadrodd arolygon yn rheolaidd er mwyn cefnogi ei weithgaredd sicrwydd ansawdd.

Staff ac adnoddau

Safon 7.1 Y Gweithlu

Dylai gwasanaethau iechyd sicrhau bod digon o staff â'r wybodaeth a sgiliau cywir ar gael ar yr amser cywir i ddiwallu'r angen.

Dangosodd yr aelodau staff fod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir er mwyn cyflawni eu swyddogaethau dynodedig yn y practis.

Gallai'r aelodau staff y siaradwyd â hwy ddisgrifio eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau penodol, a oedd yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y practis. Cadarnhaodd pob aelod o staff a siaradodd â ni eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis ac aelodau eraill o'r staff uwch. Dywedodd yr aelodau staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant er mwyn eu cynorthwyo i ymgymryd â'u swyddogaethau. Edrychwyd ar y cofnodion hyfforddi a gweld tystiolaeth o'r hyfforddiant a fynychwyd. Nid oedd pob aelod o staff wedi mynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth a dylai'r practis drefnu cefnogi'r aelodau staff i gwblhau'r hyfforddiant hwnnw.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis drefnu cefnogi'r aelodau staff cymorth i fynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Disgrifiodd y staff uwch y broses ar gyfer recriwtio staff ac roedd hyn yn cynnwys gofyn am wiriadau, gan gynnwys gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd pan fo angen, er mwyn asesu addasrwydd unigolyn i weithio â chleifion.

Gwelsom nad oedd bob aelod o staff wedi cael arfarniad cyfredol o'u gwaith. Trafodwyd hyn gyda'r staff uwch a eglurodd, oherwydd rhesymau gweithrediadol dros y flwyddyn flaenorol, roedd y broses o gynnal arfarniadau staff ffurfiol wedi llithro. Dangoswyd ymrwymiad i wneud ymdrech i gynnal arfarniadau.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis wneud trefniadau i gynnal arfarniadau staff.

Cadarnhaodd sgysiau gydag aelodau staff unigol eu bod yn teimlo bod modd iddynt fynegi unrhyw bryderon cysylltiedig â gwaith gyda'r aelodau staff uwch ac roeddent yn hyderus y byddid yn ymdrin â hyn yn briodol.

Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r feddygfa gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i roi sylw i brif ganfyddiadau'r arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd ac ym mha ffordd y bydd yr hyn a ganfuwyd yn Neintyddfa Tywyn yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y ddeintyddfa i ymateb i'r materion a nodwyd fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy, yn realistig ac yn amserol. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi digon o sicrwydd i AGIC ynghylch y materion hynny.

Pan fo camau yng nghynllun gwella'r feddygfa yn dal i fod angen eu cyflawni a/neu ar y gweill, dylai'r feddygfa roi diweddariadau i AGIC i gadarnhau pan fo'r camau wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, yn cael ei werthuso a'i gyhoeddi ar wefan AGIC.

4. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth wraidd dull AGIC o weithredu arolygiadau mewn ysbytai yn GIG Cymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae'r gwasanaeth yn darparu gofal diogel, dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae'r safonau yn allweddol i'r dyfarniadau a wnawn ynghylch ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal

Ffigur 1



Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Trafodaethau gyda chleifion a chyfweliadau gyda staff gan gynnwys meddygon, nyrsys ac aelodau o'r staff gweinyddol
- Archwiliad o sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Edrych ar y trefniadau ar waith mewn perthynas â llywodraethu clinigol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cyfleu *ciplun* o'r safonau gofal o fewn meddygfeydd Meddygon Teulu.

Cyflwynir trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y feddygfa yn y cyfarfod adborth a gynhelir ar ddiwedd pob un o'n harolygiadau.

Bydd unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad yn cael eu cyflwyno i'r feddygfa a'r bwrdd iechyd lleol drwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wnaed, yn Atodiad A i'r adroddiad arolygu.

Atodiad A

Practis Meddygol Cyffredinol:

Cynllun Gwella

Practis:

University Health Centre, Abertawe

Dyddiad Arolygu:

14 Chwefror 2017

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
6	Dylai'r practis ddatblygu'r wybodaeth sydd ar gael i ofalwyr er mwyn iddi fod yn berthnasol hefyd i bobl ifanc sy'n ofalwyr.	1.1	Cafodd yr Hysbysfwrdd ei ddiweddarau cyn pen wythnos ar ôl yr ymweliad. Mae tab gofalwyr i'w greu ar y wefan, ynghyd â dolenni gweithredol i grwpiau cymorth cenedlaethol a lleol i ofalwyr ifanc.	Rheolwr y Practis Rheolwr y Practis	Medi 17
8	Dylai'r practis adolygu gwefan y practis i ddiweddarau'r dolenni nad ydynt yn gweithio.	4.2 a 3.2	Mae'r wefan yn cael ei hadolygu bob blwyddyn er mwyn paratoi ar gyfer y mewnlif newydd o fyfyrwyr. Pob dolen i gael ei gwirio a'i hadolygu.	Rheolwr y Practis Uwch-dderbynnydd	Medi 17

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			Byddwn yn ceisio mewnbwn ychwanegol ynglŷn â dyluniad y wefan er mwyn iddi fod yn haws ei defnyddio (gan gynnwys defnyddwyr yn y broses o'i datblygu).	Grŵp cleifion Prifysgol Abertawe.	
10	Dylai'r practis gynnal arolwg boddhad cleifion a gwneud trefniadau i ailadrodd arolygon ar adegau rheolaidd fel rhan o weithgareddau gwella ansawdd y practis.	6.3	Bydd y practis yn datblygu arolwg boddhad cleifion, i'w gynnal ddwywaith y flwyddyn i adlewyrchu trosiant y cleifion.	Rheolwr y Practis Uwch-dderbynnnydd	Mehefin 2017 ac Ionawr 2018
10	Rhaid i weithdrefn gwyno'r practis gael ei hadolygu er mwyn iddi gydymffurfio â Gweithio i Wella.	6.3	Diweddarwyd y weithdrefn a'r llenyddiaeth cyn pen wythnos ar ôl yr arolygiad, er mwyn cydymffurfio â "Gweithio i Wella" (y cyfeirir ato yn y daflen). Cafodd y daflen ei chyfieithu i'r Gymraeg gan wasanaeth cyfieithu Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.	Rheolwr y Practis	Cwblhawyd ym mis Chwefror 2017
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
16	Mae'n ofynnol i'r practis ddatblygu a	3.5	Bydd y practis yn datblygu protocol	Rheolwr y	Mehefin

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	gweithredu polisi ysgrifenedig ar gyfer crynhoi cofnodion cleifion. Mae'r polisi hwn i'w adolygu'n rheolaidd.		<p>ar gyfer crynhoi nodiadau cleifion.</p> <p><u>Targedau tymor byr:</u></p> <p>Bydd y practis yn sicrhau bod nodiadau pob claf sy'n hŷn na 65 oed yn cael eu crynhoi'n llwyr yn unol â'r protocol.</p> <p>Bydd unrhyw gofrestriadau newydd o bobl sy'n hŷn na 65 oed yn cael eu crynhoi'n llwyr cyn pen 6 wythnos ar ôl i'r cofnodion ddod i law.</p> <p>Bydd pob cofrestriad newydd o'r cleifion hynny nad oeddent wedi'u cofrestru yn y DU o'r blaen yn cael ei grynhai.</p> <p>Bwrw ymlaen â'r dull presennol o nodi cleifion sydd â hanes meddygol cymhleth neu sylweddol ac anelu at grynhai cyn pen chwe wythnos ar ôl</p>	<p>Practis a'r Ymarferydd Cyffredinol (YC) Arweiniol</p> <p>Tîm Nyrsys y Practis</p> <p>Nyrsys (nes y gellir hyfforddi'r staff gweinyddol yn llwyr)</p> <p>Fel y nodir uchod</p> <p>Fel y nodir uchod</p>	<p>2017</p> <p>Diwedd mis Medi 2017</p> <p>Diwedd mis Medi 17</p> <p>Diwedd mis Medi 17</p> <p>Rhagfyr 2017</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>i'r cofnodion ddod i law.</p> <p><u>Tymor canolig:</u></p> <p>Mae systemau adolygu ar waith i werthuso effeithiolrwydd y broses a'r effaith ar adnoddau ariannol a staff yn y practis, o ystyried y trosiant blynyddol o ran nodiadau.</p> <p>Asesu ansawdd proses electronig trosglwyddo nodiadau GP2GP.</p> <p><u>Tymor hir:</u></p> <p>Anelu at gael system ar waith i ddangos bod holl nodiadau'r cleifion wedi'u crynhoi cyn pen cyfnod rhesymol ar ôl i'r practis gael y nodiadau.</p>	<p>Rheolwr y Practis a'r YC arweiniol</p> <p>Fel y nodir uchod</p> <p>Fel y nodir uchod</p>	<p>Ionawr 2018</p> <p>Ionawr 2018</p> <p>Ionawr 2020</p>
16	Dylai'r practis weithredu system o gynnal archwiliadau rheolaidd o gofnodion cleifion, sy'n cael eu cwblhau gan bob Ymarferydd Cyffredinol fel rhan o weithgareddau gwella ansawdd y practis.	3.5	<p>Bydd y clinigwyr yn cytuno ar feini prawf archwilio a bydd archwiliadau'n cael eu creu, i'w gweithredu.</p> <p>Cynnal archwiliadau rheolaidd a</p>	Mewnbwn gan bob partner ynghylch pennu'r meini prawf.	<p>Medi 2017</p> <p>Ionawr 2018</p>

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			<p>chyflwyno adroddiadau arnynt i gyfarfodydd y partneriaid.</p> <p>(Disgwylir newid o ran y bartneriaeth ym mis Medi 2017, ac felly disgwylir cynnal yr archwiliad cyntaf ar ôl y newidiadau i'r bartneriaeth).</p>	Rheolwr y Practis a'r YC arweiniol	a phob chwe mis wedi hynny.
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth					
18	Dylai'r practis wneud trefniadau i gynorthwyo staff i fynychu hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth.	7.1	<p>Mae pob Ymarferydd Cyffredinol wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth eisoes.</p> <p>Bydd y staff Gweinyddol a staff y Dderbynfa yn ymgymryd â modiwl ar-lein a thrafodaethau grŵp. (sesiwn <i>PLTS</i>)</p> <p>Bydd y nyrsys yn gwneud modiwl hyfforddi ar-lein mewn amser a ddiogelir yn ystod gwyliau'r Haf.</p>	<p>Rheolwr y Practis a'r Uwch-dderbynnydd</p> <p>Uwch-nyrs y Practis</p>	<p>Mehefin 2017</p> <p>Erbyn diwedd mis Medi 2017.</p>
18	Dylai'r practis wneud trefniadau i gynnal arfarniadau staff.	7.1	Bydd arfarniadau staff y rhaglen flynyddol i'r <u>holl</u> staff yn cael eu hailgyflwyno.	Rheolwr y Practis – staff gweinyddol a	Awst 2017 a phob blwyddyn

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
			I'w cynnal gan bersonél priodol sy'n gymheiriaid.	<p>staff y dderbynfa.</p> <p>YC (a hyfforddwyd i arfarnu Ymarferwyr Cyffredinol) ar gyfer staff clinigol.</p> <p>2 YC Partner ar gyfer Rheolwr y Practis.</p>	wedi hynny.

Cynrychiolydd y practis:

Enw (llythrennau bras):

.....Dr Julia Ann Harris.....

Teitl:

.....Ymarferydd Cyffredinol sy'n Bartner.....

Dyddiad:

.....26 Ebrill 2017.....